

Dydd Gwener 3^{ydd} Chwefror 2017

Annwyl Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg a'r Tîm Cymorth

Diolch am roi'r cyfle i mi ddarparu adborth ar y fersiwn ddrafft o'ch Asesiad Llesiant Lleol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr.

Y peth cyntaf yr wyf am ei wneud yw gwneud yn glir fy mod i'n cydnabod yn llawn yr heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n llongyfarch eich tîm ar eu gwaith caled a'u hymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaed gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Lleol sy'n rhoi un o'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a darparu gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol. Mae eich asesiad chi yn rhan allweddol o hyn, ac er fy mod yn deall na fydd, o bosibl, yn ddarlun llawn ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, y mae'n bwysig ei fod yn rhoi darlun clir a deallus o lesiant Bro Morgannwg a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau allweddol ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Atodaf ddogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, a'r hyn y dylech ystyried adeiladu arno yn y tymor byr wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ac yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18, un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn eich bod yn ceisio cyngor gennyf ar sut mae cymryd camau i gyflawni eich amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (pum dull o weithio).

Nodaf isod rai o'r pethau y byddaf yn chwilio amdanynt wrth i'm swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i, mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn rhoi sylw i'r pum dull o weithio mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant, a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad cysylltiedig o ran mwyaflu eu cyfraniad cyfunol i'r nodau a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae eich gwaith ar **gynnwys pobl a chymunedau** wrth ddatblygu eich asesiad wedi rhoi rhywfaint o ddeunydd defnyddiol i chi, ac mae angen i chi feddwl am adeiladu ar hyn er mwyn sicrhau eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion gyfrannu o ran dylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a gallu dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn a wnewch.

O ran y **tymor hir**, mae rhai enghreifftiau da lle'r ydych wedi defnyddio data tymor hir ynghylch llifogydd, eich poblogaeth sy'n heneiddio, tai a'r newid yn yr hinsawdd, ac mewn rhai achosion, darparwyd dehongliad da yng nghyswllt cymunedau penodol. Mae lle i chi adeiladu ar hyn wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, gan roi sylw i ystod ehangach o dueddiadau tymor hir a sut byddant yn effeithio ar eich holl gymunedau.

O ran integreiddio, mae'n eglur eich bod wedi gweithio'n galed i gynnwys data manwl ac mae'n ddefnyddiol eich bod yn onest ynghylch y manau lle mae angen i chi ddatblygu eich sylfaen o dystiolaeth. Credaf fod potensial i chi wneud rhagor o waith ar y cysylltiadau rhwng y pedair thema, yn enwedig o ran y materion a'r heriau allweddol (mae'r ddogfen adborth yn rhoi rhagor o fanylion am hyn). Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth feddwl am rolau cymharol eich sefydliadau gwahanol wrth i chi **fwyafu eich cyfraniad** at y nodau.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt ac rwy'n gweld hyn fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer eich cynlluniau llesiant. Mae hwn yn faes lle bydd angen i chi feddwl am yr hyn y mae'r data a'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthy, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio** yn allweddol i hyn oll - credaf fod cyfle gennych bellach i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio drwy gyfrwng adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i nodi'r cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynlluniau llesiant angen eich ymrwymiad a'ch cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, fwy na thebyg, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi lle a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid diwylliant hwn yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y bydd gofyn i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech gymryd camau i gyflawni eich cydamcanion, hoffwn weld manylion pellach ynghylch sut byddwch chi'n defnyddio eich asesiad wrth i



chi symud tuag at gynllunio llesiant. Byddwn yn ddiolchgar os gallech roi gwybod i'm swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg, bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y BGC. Nodwyd bod angen ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu a bod hynny'n rhan bwysig o fwyafu'r gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Rwy'n gobeithio bod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld datblygu eich asesiad fel digwyddiad unwaith yn unig. Wrth symud ymlaen, byddaf yn rhoi cyfleoedd i'r BGCau rannu gwersi ac arfer gorau. Gobeithio y byddwch chithau'n ymwneud â hynny, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi gyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adborth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Aseiad o Lesiant Lleol Drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg ar fersiwn ddrafft *Ymgynghoriad Bro Morgannwg ar yr Aseiad Llesiant*, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017.

Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Crynodeb Gweithredol - Aseiad Llesiant Bro Morgannwg - Drafft Ymgynghori Ionawr 2017
- Y Fersiwn Ddrafft Ymgynghori o Aseiad Llesiant Bro Morgannwg, Ionawr 2017
- Fersiynau Drafft Ymgynghori o'r Proffiliau Cymunedol: Bro Morgannwg; Y Barri; Dwyrain y Fro; Gorllewin y Fro.
- Adroddiadau Tystiolaeth Aseiad Llesiant Bro Morgannwg: Adran 1 Sicrhau dyfodol iach a gweithgar; Adran 2 Bod yn rhan o gymunedau diogel ac egnïol; Adran 3 Mwyafu cyfleoedd a chyrhaeddiad.
- Trafodaeth rhwng y tîm prosiect ac aelodau o dîm y BGC ar 24^{ain} Ionawr.

Bwriedir i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i lywio cyhoeddi'r Aseiad yng ngwanwyn 2017, a phrosesau parhaus datblygu eich aseiad a'ch cynlluniau llesiant. Bwriedir i'r adborth eich helpu i adeiladu ar y gwaith a wnaed gennych yn barod a pharhau i wella eich dealltwriaeth o lesiant yn eich ardal.

Mae'r aseiad wedi cael ei adolygu gan y tîm prosiect gan ddefnyddio set o feini prawf a ddatblygwyd yn arbennig i ffocysu ar agweddau ar waith cynhyrchu, methodoleg a dadansoddi yr aseiad a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu'r ystod eang o ymagweddau tuag at yr aseiad llesiant lleol a ddefnyddiwyd, ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i'r BGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd y gellid eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i nodi materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrrff sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymwneud â chynllunio llesiant.

Rydym yn deall bod yr Asesiad Llesiant yn broses barhaus, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y misoedd sy'n dod, ond mae'n bwysig nodi'r sylwadau canlynol a gweithredu arnynt wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu a'i addasu ac wrth adeiladu arno i lywio cynllunio llesiant ar draws y BGC.

2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion rydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod BGCau yn dangos sut maent yn cynllunio i fwyafu eu cyfraniad i'r nodau. Deallwn y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu llesiant; fodd bynnag, mae'n bwysig bod cysylltiad clir rhwng y data, y dehongliad ohono a'n dealltwriaeth o bob agwedd ar lesiant yn ein cymunedau.

Mae'n gadarnhaol bod yr asesiad yn darlunio perthynas rhwng y pedair thema llesiant² a'r nodau llesiant cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r asesiad ar ei hyd yn cynnig eglurhad cyfyngedig yn unig ynghylch *sut* mae'r materion sy'n codi ym mhob adran yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol neu'n effeithio arnynt. Ni chawn ddim mwy na rhestr o'r nodau sy'n berthnasol. Gellid gwella'r asesiad trwy egluro'r berthynas rhwng yr hyn y mae'r data yn ei ddweud a'r goblygiadau i'r nodau llesiant.

Yn ogystal â bod yn fwy eglur ar y mater hwn, gellid cynnig adlewyrchiad cryfach o lesiant diwylliannol a'i effaith ar draws y pedair thema, ynghyd ag adfyfrio ar sut mae Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn berthnasol i Fro Morgannwg.

²Sicrhau dyfodol iach a gweithgar; bod yn rhan o gymuned ddiogel a chynhwysol; mwyafu cyfleoedd i gyflawni; ein hamgylchedd.

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod asesiadau llesiant yn canolbwyntio ar yr ardal a'r 'lle' ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hynny.

Mae'r Data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is a ddarparwyd ar gyfer Bro Morgannwg gyfan ac ar gyfer y tair ardal gymunedol yn sylfaen ardderchog i'r BGC ddeall llesiant mewn gwahanol leoliadau ac o fewn lleoliadau. Dylid canmol yr ymagwedd hon. Mae'r fersiynau drafft ymgynghori o'r proffiliau cymunedol sy'n defnyddio'r data hwn yn glir ac wedi eu gosod yn dda.

Mae tri phroffil cymunedol ar gyfer y Barri, Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro yn darparu gwybodaeth dda ynghylch ymgysylltu, prosiectau a nodweddion ond heb ddadansoddi na chyfosod materion hollbwysig na darparu sylwebaeth ar gyflwr llesiant. Gellid gwella'r proffiliau cymunedol hyn drwy ddadansoddi mwy ar yr heriau allweddol ym mhob lleoliad a chynnig sylwebaeth ar ba mor hanfodol ydynt i bob ardal gymunedol ac i Fro Morgannwg yn gyffredinol (gweler y pwyntiau yn nes ymlaen ynghylch dehongli data). Yn rhy aml, gadewir i'r data sefyll ar ei ben ei hun. Mae'n gadarnhaol bod bwriad i wella'r elfennau hyn wrth i'r prosiect fynd ymlaen, i ddangos gwahaniaethau mewn cymunedau a rhwng cymunedau.

Hefyd, mae'n dda gweld rhestrau o brosiectau a strategaethau ym mhob ardal. Dylai'r adrannau hyn ddangos pam mae'r rhestrau hyn wedi cael eu cynnwys a darparu rhyw gyd-destun, a syniad o'u heffaith ar y mater y ceisiant fynd i'r afael ag ef. Mae'r rhestr o asedau a chyfleusterau o dan y pedair thema yn troi, yn ddealladwy, o gwmpas y sector cyhoeddus. Mae'n bosibl y byddai'n fanteisiol datblygu ar hyn er mwyn cynnwys seilwaith hanfodol o ran ynni, dŵr, trafnidiaeth a'r asedau o safbwynt busnesau mewn economïau trefol, amaethyddol a thwristiaeth.

4. Cynnwys data - angen pobl am wasanaethau cyhoeddus a'r defnydd ohonynt

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r rhain yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau penodol o unigolion.

Mae'n gadarnhaol gweld y ffocws ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus trwy gynnwys data o'r Aseiad Poblogaeth, yn enwedig yn yr adran 'sicrhau dyfodol iach a gweithgar'. Mae'n amlwg bod cynnwys cwestiwn ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus yn ymgynghoriad *Amser Siarad* wedi darparu cyfoeth o wybodaeth i'w hystyried gan y BGC.

Un o flaenoriaethau fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod, yn y lle cyntaf, yn cynnwys pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau bywyd pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar sail yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau.

Lle rhestrir prosiectau ac 'ymyriadau' ar gyfer pob Proffil Cymunedol - nid yw'n glir pa anghenion gwasanaeth penodol sy'n ofynnol a sut mae'r rhain yn amrywio ar draws Bro Morgannwg ac yn ardaloedd y Barri, Dwyrain a Gorllewin y Fro. Gellid gwella'r Proffiliau Cymunedol trwy ddadansoddi a deall ymhellach sut mae patrymau anghenion gwasanaeth yn amrywio ar draws cymunedau yn y Fro.

5. Dadansoddiad meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod her cydbwysio data, sylwadau a thystiolaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dulliau a dadansoddiadau meintiol ac ansoddol yr asesiadau yn rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth gychwynnol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Fel y trafodwyd ym mhwynt 3 uchod, mae'r asesiad yn darparu lefel ardderchog o ddata, ond yn gyffredinol, mae cyfle i ddehongli a dadansoddi llawer mwy ar y materion allweddol. Mae angen dehongli mwy ar y rhestrau a'r tablau er mwyn nodi a chyfleu'r materion hollbwysig i lesiant ar bob lefel. Gwnaed defnydd da o ddata ansoddol o Amser Siarad yn yr adroddiadau tystiolaeth fanwl: ond eto, mae diffyg dehongli data yn golygu ei fod yn anodd penderfynu pa faterion llesiant yw'r rhai pwysicaf i ymdrin â hwy.

Mae lefel y dehongli yn yr adroddiadau tystiolaeth fanwl yn amrywiol, ac yn gyfyngedig iawn mewn rhai. Mae'r paragraffau canlynol yn cynnig adborth mwy penodol ar bob thema.

Sicrhau Dyfodol Iach a Gweithgar - mae'r adran hon yn darparu: trosolwg cryno o'r tueddiadau allweddol a barn y gymuned, a chysylltiadau â'r amgylchedd; data sy'n dangos amrywiaeth ac anghydraddoldebau mewn tueddiadau iechyd ar draws y Fro; lefel dda a phriodol o fanylion damcaniaethol a gefnogir gan ddata; cysylltiad cryf rhwng iechyd, yr amgylchedd awyr agored a chwarae; cysylltiad cryf â data'r asesiad poblogaeth; dadansoddiad rhagorol o'r 'mannau lle mae angen i ni gynyddu ein sylfaen o dystiolaeth'; mae'n llai eglur ynghylch tueddiadau'r dyfodol a goblygiadau'r rhain i'r Fro gyfan ac i gymunedau penodol.

Ein Hamgylchedd - Gellid gwella'r adran hon yn gyffredinol drwy sôn mwy am yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthym ynghylch y Fro, yn hytrach na disgrifio'r data. Mewn mannau, mae'n teimlo'n gyffredinol, a bron yn ddamcaniaethol, heb fawr o ddealltwriaeth o arwyddocâd materion i'r Fro. Gellid gwella hynny trwy: gynnig eglurhad cliriach ynghylch risgiau'r newid yn yr hinsawdd yn yr ardal trwy ddehongli data ynghylch yr ardal leol o'r Asesiad Risg cenedlaethol ynghylch y Newid yn yr Hinsawdd; disgrifio arwyddocâd y risgiau i'r Fro gyfan ac i gymunedau penodol o ran rheoli adnoddau llifogydd cyfredol; dealltwriaeth o ba safleoedd/cynefinoedd dynodedig/planhigion/anifeiliaid sydd mewn perygl yn y Fro; eglurder ynghylch arwyddocâd ansawdd aer, tipio anghyfreithlon, ansawdd pridd i lesiant yn yr ardal.

Mwyafu Cyfleoedd i Gyflawni - Mae'r adran hon yn disgrifio sylfaen gref o dystiolaeth ond mae'r disgrifiad a'r diwyg yn llai hwylus na'r adrannau eraill. Byddai brawddegau cyswllt yn helpu i dywys y darlennydd trwy'r data. Byddem yn disgwyl gweld y mathau canlynol o ddata yn cael eu cynnwys yn yr adran hon er mwyn cynnig gwell dealltwriaeth o lesiant economaidd: sut ac ymhle mae pobl yn gwneud bywoliaeth; yr economi leol a'r gyd-berthynas â Chaerdydd ac ardaloedd eraill - sut mae'n cyd-fynd â'r rhanbarth, a natur y cyfleoedd sy'n deillio o'r prosiect Dinas-ranbarth; sut ymgysylltwyd â busnesau - a ofynnwyd iddynt e.e. beth, yn eu barn nhw, yw'r materion allweddol ar gyfer canol trefi?; dealltwriaeth o batrymau cymudo a'u rôl mewn llesiant; cyfleoedd yn y dyfodol yn sgîl gwella'r seilwaith TG a thrafnidiaeth; rôl amaethyddiaeth a'r economi wledig mewn ardal led-wledig.

Diogel a Chynhwysol - Mae'r adran hon yn darparu data da trwy gyfrwng gwaith *Amser Siarad* a'r gwaith gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Mae'n cynnig crynodeb ardderchog. Mae'r adrannau ynghylch gofal plant, unigrwydd ac arwahanrwydd, anghydraddoldeb, poblogaeth sy'n heneiddio, tai a cham-drin domestig yn werth eu nodi. Mae'r adran hon, fel yr adran Iechyd, yn rhoi dadansoddiad manwl o'r mannau 'lle mae angen i ni gynyddu'r sylfaen o dystiolaeth'. Mae'r bwriad i feddwl am gymunedau yn y dyfodol a'u cydnerthedd yn gadarnhaol ac yn adlewyrchu dealltwriaeth yr awduron o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn canolbwyntio ar yr heriau allweddol i lesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfaddawdu rhwng y gwahanol nodau llesiant, tensiynau, a diffygion yn yr ardal.

Mae'r asesiad yn rhoi disgrifiad da o'r hyn sy'n gadarnhaol ynghylch Bro Morgannwg a'i hasedau. Fodd bynnag, gellid gwella hynny trwy dadansoddi a disgrifio'r heriau pwysig (e.e. tlodi amlgenhedlaeth), cyfaddawdu (e.e. defnydd tir), tensiynau (e.e. tai) ac effaith y rhain ar y Fro. Mae enghreifftiau o wneud hynny'n dda i'w gweld yn y sylwebaeth ar unigrwydd ac arwahanrwydd, addasu i'r hinsawdd, a thai, ond byddai dealltwriaeth gliriach o ba ardaloedd yn y Fro fydd yn wynebu heriau arbennig o aciwt yn sgîl y tueddiadau hyn (ac eraill) yn fanteisiol. Mae'r rhain yn enghreifftiau da o nodi heriau allweddol.

Mae'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau yn yr adran olaf yn manylu ar rai o'r cyfaddawdu a'r heriau eraill, ond nid yw'n eglur sut bydd y materion hyn, a rhai eraill a nodwyd yn yr asesiad, yn cael eu dadansoddi, eu blaenoriaethu a'u dewis ar gyfer gweithredu ar y cyd gan y BGC. Byddai crynodeb o'r heriau allweddol sy'n wynebu llesiant ym Mro Morgannwg a'r broses o ddewis blaenoriaethau yn gwella'r asesiad.

7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio y mae angen i BGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. O ganlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth wrth gynhyrchu'r asesiad, gan gynnwys ymgysylltu â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau sector preifat.

Mae'n braf gweld yr ymgysylltu a fu ag ystod eang o randdeiliaid trwy gyfrwng *Amser Siarad* a'r ystod o ddulliau eraill a ddefnyddiwyd i gasglu data meintioli ac ansoddol er mwyn llywio'r asesiad. Mae'r cydweithio â Chyngor Caerdydd ynghylch *Amser Siarad* yn enghraifft gadarnhaol o weithio ar y cyd. Hefyd, mae'n eglur i randdeiliaid y bydd yr ymgysylltu'n parhau trwy gydol y cyfnod ymgynghori, a bod yr asesiad yn broses barhaus. Mae hyn hefyd yn gadarnhaol.

Nid yw'n glir yn yr asesiad i ba raddau y cysylltwyd neu yr ymgynghorwyd â'r sector preifat ynghylch llesiant yn yr ardal. Yn amlwg, mae hyn yn bwysig i'r adran '*Cyfleoedd*', ond mae'r un mor bwysig o ran

cael eu sylwadau ar agweddau eraill ar lesiant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun deall graddfeydd gofodol gwahanol - y ddinas-ranbarth, yr economi amaethyddol ar draws y Fro a chanol trefi. Mae angen bod hyn naill ai'n cael ei adlewyrchu yn fwy pendant yn yr asesiad, os bu ymgynghori ac ymgysylltu â'r sector preifat, neu bydd angen mynd i'r afael â hyn mewn gwaith yn y dyfodol ar yr asesiad a'r cynlluniau llesiant.

8. Integreiddio

Un o nodau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. O ganlyniad, rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng seilos polisi a sefydliadol traddodiadol wrth gynhyrchu'r asesiad.

Mae hwn yn faes y dylech roi ystyriaeth bellach iddo wrth i chi gwblhau eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Mae lle i integreiddio rhagor ac ymchwilio ymhellach i'r berthynas rhwng polisi a heriau ym mhob thema. Prin yw'r dystiolaeth fod y data o bob adran wedi cael ei ystyried ochr yn ochr â data'r lleill, neu bod ystyriaeth wedi'i rhoi i gydberthnasoedd. Mae rhyw sôn am bwysigrwydd yr amgylchedd yn y tair adran arall, ond yn gyffredinol mae'r rhain yn teimlo fel pedair adran ar wahân heb fawr o gyfeiriadau at y naill a'r llall. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws y seilos traddodiadol er mwyn dehongli beth mae hyn yn ei olygu i lesiant yn yr ardal.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r *tymor hir* trwy gydol yr asesiad a'r cynllunio llesiant. Mae gennym ddiddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddi tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabod llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae rhai enghreifftiau da yn yr asesiad o ddefnyddio data tymor hir ynghylch llifogydd, poblogaeth sy'n heneiddio, tai a'r newid yn yr hinsawdd. Mae sylwadau blaenorol wedi amlygu manau lle darparwyd dehongliad da yng nghyswllt cymunedau penodol.

Yn gyffredinol, mae angen rhoi llawer mwy o sylw i effaith bosibl y tueddiadau tymor hir ar y Fro yn gyffredinol ac yn y tair ardal gymunedol, ac mae hyn yn rhywbeth y byddem yn disgwyl ei weld yn gwella wrth i'r asesiad a'r Cynllun ddatblygu.

Gellid mabwysiadu ymagwedd syml er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Gallai crynhoi'r heriau yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir ar gyfer pob adran (gweler hefyd bwynt 6), gan nodi ymhle y mae goblygiadau arwyddocaol posibl i'r ardal, a'r bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau tymor hir, helpu'r BGC i flaenoriaethu'r heriau hollbwysig sy'n galw am weithredu ar y cyd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ei hadroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys chwe thema allweddol sef: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a'r Newid yn yr Hinsawdd, Iechyd, Defnydd Tir a Seilwaith, a Newid Cymdeithasol. Bydd angen i'ch gwaith parhaus o ran asesu llesiant roi sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylid anelu hefyd at roi pwyslais cliriach ar heriau'r tymor hir i lesiant yn yr asesiad cychwynol a gyhoeddir yn y gwanwyn.

10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n nodau fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dealltwriaeth fanylach o'r materion allweddol rhanbarthol a thrawsffiniol sy'n effeithio ar Fro Morgannwg yn fanteisiol, i lywio proses y cynllun llesiant. Gallai'r asesiad gynnig eglurhad cliriach ynghylch 'rôl' yr ardal yn y rhanbarth. Bydd hefyd yn bwysig bod y BGCau yn ystyried casgliadau asesiadau llesiant lleol eu cymdogion wrth fynd ati i ddatblygu eu cynllun.

Er bod adran ynghylch y prosiect Dinas-ranbarth, nid yw'n glir beth fydd goblygiadau posibl y prosiect pwysig, tymor hir hwn i bob agwedd ar lesiant cymunedol ledled y Fro. Er bod yr effeithiau penodol yn aneglur ar hyn o bryd, mae'n amlwg y bydd yn dylanwadu ar gydlyniant, cydraddoldeb, cydnerthedd ac ati. Dylid cynnwys dylanwad posibl y prosiect ar gyfer pob adran o'r asesiad, y tu hwnt i'r adran 'Cyfleoedd', gan y bydd yn debygol o gael effaith luosog ar draws gwahanol rannau o'r ardal. Gellid bwrw rhagor o oleuni ar arwyddocâd patrymau cymudo i lesiant, materion hollbwysig i'r seilwaith trafniadaeth a natur y gydberthynas â Chaerdydd, Cwm Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, a phartneriaid rhanbarthol eraill.

11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaus lle bydd y sylfaen o dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd y BGCau at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad a materion data wrth symud ymlaen.

Mae gweld y darnau ynghylch 'sut mae angen i ni ddatblygu ein sylfaen o dystiolaeth', mewn tair o'r adrannau, yn gadarnhaol dros ben. Dylid cynnwys hyn hefyd yn yr adran o'r asesiad ynghylch yr Amgylchedd. Mae'r rhestrau hyn yn cynnig dealltwriaeth dda o fylchau data penodol a gellid eu gwella trwy gyfleu pa rai o'r rhain sy'n hollbwysig i gynllunio llesiant yn y flwyddyn nesaf a pha rai y byddid yn eu datblygu dros gyfnod hwy.

Byddai adran i grynhoi'r rhain yn gwella rhan olaf yr asesiad. Bydd hyn yn bwysig er mwyn deall a oes unrhyw batrymau o ran anghenion data ar draws y pedair thema, a'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a'r tu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil a rheoli data i mewn i'w cynlluniau busnes a chorfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi syniad i Lywodraeth Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Uned Ddata Cymru ynghylch anghenion y BGC.

12. Defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r canllawiau statudol yn gosod cyfrifoldeb ar y BGCau i *fwyafu* eu cyfraniad i'r nodau llesiant gan ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae'r pum dull o weithio sy'n rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael eu defnyddio yn y broses o ddatblygu asesiadau llesiant.

Mae yma rai cyfeiriadau at y dulliau o weithio, sy'n dangos iddynt gael eu hystyried i ryw raddau, fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad.

- *Ymgyfraniad* - trwy gyfrwng Amser Siarad
- *Cydweithio* - â phartneriaid yn y BGC a Chyngor Caerdydd
- *Y tymor hir* – defnyddio data hawdd ei gael ar yr hinsawdd, tai a'r boblogaeth
- *Ataliaeth* - trafodwyd ymyrraeth yn y blynnyddoedd cynnar yn yr adran
- *Sicrhau dyfodol iach a gweithgar; bod yn rhan o gymuned ddiogel a chynhwysol*

Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth bod egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael ei ddefnyddio fel dull gweithredu yn yr asesiad, gweler y sylwadau ar *Integreiddio* (pwynt 9). Mae cyfeiriadau tybiannol yn unig at egwyddor datblygu cynaliadwy a nifer o gyfeiriadau at y 5 dull o weithio.

Byddai'r asesiad yn elwa o fod yn fwy eglur ynghylch sut mae'r egwyddor wedi newid ymagwedd y BGC at y gwaith hwn, a sut bydd pum dull o weithio yn llywio'r broses cynllunio llesiant.

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y dogfennau'n eglur ynghylch sut byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Mae'r adran 'Sut bydd y BGC yn dewis ei flaenoriaethau' yn cynnig rhyw ddealltwriaeth o'r broses wrth symud ymlaen a'r amserlen ar gyfer llunio'r Cynllun. Byddai rhagor o wybodaeth ynghylch sut gallai rhanddeiliaid barhau i ymgysylltu yn ddefnyddiol.

Gellid cynnig rhagor o eglurder ynghylch *sut a pham* dewiswyd y blaenoriaethau penodol sydd yn y rhestr. Sut mae'r dadansoddi wedi arwain at ddewis y materion hyn uwchlaw rhai eraill? Rydym wedi nodi meysydd penodol yn yr asesiad y mae angen mwy o ddadansoddi a dehongli arnynt fel rhan o'r adborth hwn - gallai rhagor o wybodaeth am y materion hyn lywio blaenoriaethau ar gyfer gwaith pellach.

Gellid gwella'r Crynodeb Gweithredol trwy gynnig mwy o eglurder ynghylch yr heriau allweddol sy'n wynebu'r Fro (gweler pwynt 6) a'r gydberthynas rhwng y materion hyn (gweler pwynt 8) - ar hyn o bryd, mae'n ailadrodd cynnwys o'r adrannau ac, yn hytrach na chrynhoi prif ganfyddiadau'r asesiad, nid yw'n gwneud mwy na'u rhestru. Gellid gwella'r ddogfen hon yn aruthrol trwy ddadansoddi a dehongli.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi nodi nifer o feysydd lle credwn y gallai'r asesiad gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi ac yn y tymor canol wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Ar ben hynny, trefnwyd galwad ffôn i ni fedru trafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC oedd wedi ymwneud â'r broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle

i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cychwynnol a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchu'r asesiad.

Mae nifer o themâu eang, cylchol clir wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol er mwyn gwella'r asesiad. Mae'r rhain yn berthnasol i Fro Morgannwg gyfan ac i'r ardaloedd cymunedol unigol:

Integreiddio ar draws themâu - mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y data a gasglwyd ynghylch y pedair thema a goblygiadau hynny i lesiant

Dehongli'r data – mwy o eglurhad ynghylch sut mae'r materion a nodwyd drwy'r data yn effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau

Heriau - darparu dadansoddiad cliriach o'r heriau (a'r cyfleoedd) sy'n wynebu llesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir

Cyd-destun rhanbarthol - gwell dealltwriaeth o effaith llesiant ar le Bro Morgannwg yn y rhanbarth a'i chydberthynas ag ardaloedd a chymunedau cyfagos

Tueddiadau'r dyfodol – rhoi mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar lesiant yn y Fro gyfan ac yn y tair ardal gymunedol

Symud ymlaen - disgrifio'n gliriach sut mae'r blaenoriaethau'n cael eu dewis ar gyfer gwaith pellach - a'r rhesymeg y tu ôl i'r dewisiadau

Cydnabyddir y gellir mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr ac adeg cyhoeddi'r asesiad yn derfynol.

Wrth adolygu'r asesiad a gweithio tuag at gynllunio llesiant, mae'n bwysig bod y BGC yn deall ac yn cydnabod y penderfynyddion llesiant sydd o fewn cwrpas ei ddylanwad a'r rhai y mae cyrff eraill yn gyfrifol amdanynt. Bydd hyn yn bwysig wrth gydweithio a datblygu ymagweddau integredig â phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol trwy'r Cynllun.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio gwaith parhaus y BGC fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach wrth i'r BGC symud ymlaen.